# Gwneud y mwyaf o iechyd a llesiant i bobl a chymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru


Lewis Brace

8fed Mehefin 2023

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales
Polisi

# Pecyn cymorth ac animeiddiad y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol



# Beth yw'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol?


**Nod cyffredinol y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yw cefnogi cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud penderfyniadau gwell a fydd yn gwella canlyniadau i bobl a chymunedau sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.**

**Mae'n gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw dyledus at yr angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.**


**Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn gyfle i wneud gwahaniaeth i iechyd a llesiant rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol a hyrwyddo cydraddoldeb.**

# Terminoleg


**Mae'n gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw dyledus at yr angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.**




**Mae’n gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw dyledus at yr angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.**




**Mae’n gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw dyledus at yr angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.**



**Mae’n gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw dyledus at yr angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.**





(Ffynhonnell: Cymru Fwy Cyfartal, 2021)[1]




(Ffynhonnell: Cymru Fwy Cyfartal, 2021)[1]

# Amddifadedd ardal

MALIC 2019 Graddau cyffredinol ym Mro Morgannwg



Mae'r ACEHI mwyaf difreintiedig ym Mro Morgannwg wedi'u hamlygu yn y lliw tywyllach (Ffynhonnell: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg, 2019)[9]

Sir Fynwy




Blaenau Gwent

Taith 13 munud
Bwlch o 13 mlynedd mewn disgwyliad oes iach (gwrywod)

Iechyd Cyhoeddus Cymru. Disgwyliadau iechyd yng Nghymru gyda bwlch anghydraddoldeb. Cyhoeddwyd 2022.

## Anfantais economaidd-gymdeithasol

| Cymuned o le | Cymuned o ddiddordeb | Rhyng-gysylltedd |
|---|---|---|
| Lleoliadau daearyddol a rennir, er enghraifft lle mae pobl yn gweithio neu'n byw. | Hunaniaeth a rennir, er enghraifft rhieni unigol neu'r rhai sy'n gadael gofal. | Y ffordd y gall nodweddion fel rhywedd, hil neu ddosbarth, ryngweithio a chynhyrchu profiadau anfantais unigryw ac weithiau lluosog. |

# Arweinyddiaeth system

*“Mae’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i sefydliadau newid y ffordd y maent yn meddwl, yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau i’r grwpiau mwyaf difreintiedig.”*



# Arweinyddiaeth system

**Rhestr wirio o gwestiynau i alluogi newid system yn fewnol**

- A oes dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o lefel y Bwrdd i dimau cyflawni yn eich sefydliad o'r hyn yw'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a'r hyn sydd ei angen i fodloni'r ddyletswydd?
- A oes gennych broses i sicrhau bod strategaethau yn cael eu hadolygu yng ngoleuni'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol?
- A oes gennych broses asesu effaith integredig?
- A yw effaith strategaethau ar grwpiau economaidd-gymdeithasol is ac anghydraddoldebau eraill mewn iechyd wedi'u hamlygu ar dempledi papurau'r Bwrdd?
- A oes gennych broses ddilys i sicrhau cydgynhyrchu a bod lleisiau'r rhain yr effeithir arnynt gan amddifadedd yn cael eu clywed?
- A ydych yn sicr nad ymarfer ticio blychau yn unig yw'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ond ei bod yn cael ei defnyddio mewn gwirionedd i wreiddio gwella anghydraddoldeb iechyd yn y gwaith y mae eich sefydliad yn ei wneud?
- A oes gennych hyrwyddwyr ar gyfer y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ar draws eich sefydliad yn cynnwys ar lefel y Bwrdd?

# Arweinyddiaeth system

## Cwestiynau i'w hystyried ar gyfer Newid System Gyfan[54]:

- Sut mae cyfeirio ein hymdrechion yn fwy pwrpasol o arbrofion bach a datrysiadau un pwynt ac atebion cyflym i drawsnewid system?

- Sut mae rhannu a chysylltu data yn fwy effeithiol rhwng sefydliadau?

- A ydych chi'n cynnwys ac yn cyd-gynhyrchu newid gyda'r rhai sy'n profi anghydraddoldebau gofal iechyd trwy ymgysylltu â chymunedau wrth ddylunio, gweithredu a gwerthuso?

- Sut rydym yn creu mecanweithiau cadarn ar gyfer dysgu a myfyrio *cyfunol*?

# Gweithredu'r Ddyletswydd yn ymarferol

## Cynnal asesiad o effaith

| Cynllun | Tystiolaeth | Asesu a gwella | Llunwyr penderfyniadau strategol | Cofnodi |
|---|---|---|---|---|
| A yw'r penderfyniad yn benderfyniad strategol? | Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniad mewn perthynas â'r penderfyniad hwn?<br>A ydych wedi ymgysylltu â'r rhai yr effeithir arnynt gan y penderfyniad?<br>A ydych wedi ystyried lleoedd a chymunedau o ddiddordebau ill dau? | Beth yw prif effeithiau'r cynnig?<br>Sut gellir gwella'r cynnig fel ei fod yn lleihau anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? | Mae'r cam hwn er mwyn i lunwyr penderfyniadau gadarnhau bod sylw dilys wedi'i roi, er enghraifft swyddogion gweithredol a chyfarwyddwyr anweithredol, ac aelodau byrddau. Rhaid iddynt fod yn fodlon bod y corff wedi deall y dystiolaeth a'r effaith debygol, a wedi ystyried a ellir newid y polisi i leihau anghydraddoldeb canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol. | Y cam hwn yw'r broses o gyflwyno tystiolaeth a chofnodi sut mae 'sylw dilys' wedi'i roi. Ar y cam hwn dylai newidiadau i'r penderfyniad gael eu gwneud a'u cofnodi. |

# Gweithredu'r Ddyletswydd yn ymarferol

- Beth yw effeithiau posibl y cynnig/penderfyniad fel yr ydym yn eu deall ar hyn o bryd?
- A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r cynnig/penderfyniad ar bobl sy'n profi tlodi ac sy'n dioddef fwyaf o ran anghydraddoldeb?
- Sut y gellid gwella'r cynnig/penderfyniad fel ei fod yn lleihau neu'n lleihau ymhellach anghydraddoldebau canlyniad, gan ganolbwyntio'n benodol ar anfantais economaidd-gymdeithasol?
- Sut bydd y polisi neu wasanaeth hwn yn ein cynorthwyo i leihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau yn gyffredinol?
- Sut gallwn ni sicrhau bod barn a phrofiadau pobl mewn tlodi ac sy'n dioddef fwyaf o ran anghydraddoldeb yn llywio penderfyniadau a chynllun gwasanaethau?
- Sut bydd camau gweithredu a chanlyniadau yn cael eu monitro?
- [Os ydym yn bwriadu addasu cynnig/penderfyniad], a allwn addasu ein penderfyniad ymhellach er budd cymunedau penodol o ddiddordeb neu leoedd sydd mewn mwy o berygl o anfantais economaidd-gymdeithasol?

# Defnyddio data yn effeithiol

**Ffynonellau data meintiol sydd ar gael i gyrff cyhoeddus yng Nghymru a sut y gellir eu defnyddio i fesur anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldeb canlyniadau.**

| | | | | Mesur Anfantais economaidd-gymdeithasol | | | | | Mesur Anghydraddoldebau Canlyniad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffynhonnell data[1] | Amlder | Disgrifiad | Lefel ardal[2] | Amddifadedd ardal | Cyfoeth | Cefndir economaidd-gymdeithasol | Incwm | Amddifadedd materol | Addysg | Gwaith | Safon byw | Iechyd | Cyfiawnder a diogelwch personol | Cyfranogiad |
| Cyfrifiad | 2021 (bob 10 mlynedd) | [3] | AC, ACEHI, ACEHC | ✓ | × | ✓ | × | × | ✓ | ✓ | × | ✓ | × | × |
| Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | 2019 (pob 4-5 mlynedd)[4] | [5] | ACEHI | ✓ | × | ✓ | ✓ | × | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd | 2022[6] | [7] | ACEHI, ACEHC, ACEHU | ✓ | × | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

# Defnyddio data yn effeithiol

## Pwyntiau Cryno

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

- Cymerodd 1,072 o gyfranogwyr ran yn arolwg Ionawr 2023 (9 – 30 Ionawr).

### Llesiant Meddyliol

- Roedd **75%** o bobl yn cytuno’n gryf* ei bod yn bwysig bod pobl yn cymryd camau i amddiffyn a gwella eu llesiant meddyliol.
- Roedd **33%** yn dweud eu bod yn cymryd 'llawer' o gamau ar hyn o bryd i amddiffyn a gwella eu llesiant meddyliol; dywedodd 12% nad ydynt yn cymryd unrhyw gamau.
- Roedd **40%** yn cytuno’n gryf* eu bod yn gwybod pa gamau y gallant eu cymryd i amddiffyn a gwella eu llesiant meddyliol.

### Anghydraddoldebau Iechyd

- Roedd **31%** o bobl yn cytuno'n gryf mai'r amgylchiadau y mae plant yn cael eu geni iddynt sy'n pennu eu cyfleoedd ar gyfer iechyd da gydol eu hoes.
- Gofynnwyd i’r cyfranogwyr faint o broblem oedd gwahanol fathau o anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru yn eu barn nhw. Y mathau gafodd eu nodi amlaf fel ‘problem enfawr’ oedd:
  - Anghydraddoldebau mewn incwm a chyfoeth **(47%)**
  - Anghydraddoldebau rhwng ardaloedd mwy a llai difreintiedig **(45%)**
  - Anghydraddoldebau mewn canlyniadau addysg i blant **(36%)**

### Brechlynnau

- Mae **67%** of o bobl yn meddwl ei bod yn bwysig iawn* bod pobl yn cael brechlyn pan gaiff ei gynnig.
- Roedd **29%** yn chwilio am wybodaeth i'w helpu i benderfynu a ddylid derbyn y brechlyn olaf a gynigiwyd iddynt.

### Ymddygiad Cymryd Risg

- Wedodd **16%** o bobl bod nhw ar hyn o bryd yn ysmygu tybaco.

*Sgoriau o 9 a 10 ar raddfeydd 0 i 10

# Ymgysylltiad ystyrlon

| Gwahanol ffyrdd o ymgysylltu | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hysbysu** | **Ymgynghori** | **Ymgysylltu** | **Cydweithio** | **Cydgynhyrchu** |
| Rhannu gwybodaeth, er enghraifft drwy e-byst, taflenni a'r cyfryngau cymdeithasol. | Gofyn am farn ar opsiynau sydd wedi'u datblygu, er enghraifft drwy arolygon, gweminarau a chyfarfodydd cyhoeddus. | Siarad gyda phobl a chymunedau a gwrando arnynt i ddeall y materion, er enghraifft drwy fforymau cleifion, paneli dinasyddion neu grwpiau ffocws. | Gweithio gyda phobl a chymunedau i gynnwys eu syniadau, er enghraifft drwy sesiynau cyd-ddylunio ailadroddol. | Partneriaeth gyfartal o'r dechrau i'r diwedd, gan ddefnyddio cyfuniad o offer fel mapio asedau, sgyrsiau cymunedol a sesiynau cyd-ddylunio |

| | |
|---|---|
| **Cynnwys pobl o'r dechrau**<br>Defnyddwyr cynrychioliadol, nid cynrychiolaeth gan ddefnyddwyr | **Ymrwymo i'r broses**<br>Yn cynnwys amser a adnoddau |
| **Triongli data**<br>Ymchwilio i sut gall ffurfiau amrywiol o dystiolaeth lywio polisi a dylunio gwasanaeth | **Dadansoddi a gweithredu ar adborth**<br>Cau'r cylch drwy gyfathrebu yn ôl i'r rhai gafodd eu hymgysylltu |

# Sut ydym yn gwybod a ydym wedi gwneud gwahaniaeth?

**Mathau o gwestiynau gwerthuso**

| Proses | Effaith | Canlyniad |
|---|---|---|
| • Ar ba brosesau gweud penderfyniadau y cynhaliwyd asesiadau effaith?<br>• Pa weithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd?<br>• Pa ddata a ddefnyddiwyd?<br>• Beth oedd y rhwystrau i gynnal asesiad effaith? | • A wnaeth yr asesiad effaith newid cyfeiriad gwneud y penderfyniadau?<br>• Sut wnaeth yr asesiad effaith newid cyfeiriad gwneud y penderfyniadau? | • A gafodd gweithredu'r polisi neu'r gwasanaeth effaith gadarnhaol ar y canlyniadau i bobl a chymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?<br>• A wnaeth gweithredu'r polisi neu wasanaeth gael unrhyw ganlyniadau anfwriadol (cadarnhaol neu negyddol) ar bobl neu gymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol? |

FFURFLEN

## Offeryn tracio cynnydd y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

**Bydd yr offeryn tracio cynnydd hwn yn helpu cyrff cyhoeddus i fodloni gofynion y Ddyletswydd. Bydd yn helpu i newid y ffordd mae penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud.**

Rhan o: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: arweiniad ac adnoddau ar gyfer cyrff cyhoeddus a Cynllunio a strategaeth cydraddoldeb

Cyhoeddwyd gyntaf: 4 Awst 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 4 Awst 2021

## Dogfennau

**Offeryn tracio cynnydd y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**

DOCX 48 KB

Efallai na fydd y ffeil hon yn hygyrch. **Cais am fformat gwahanol.**

https://www.llyw.cymru/offeryn-tracio-cynnydd-y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol

**Lewis Brace  BSc (Hons), MPH**

**Swyddog Ymchwil Polisi Iechyd Cyhoeddus**

**Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**
Rhif 2 Capital Quarter
Tyndall Street
Caerdydd
CF10 4BZ

ebost: Lewis.Brace@wales.nhs.uk
www.iechydcyhoedduscymru.org

Pecyn cymorth ac animeiddiad y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol:

https://phwwhocc.co.uk/resources/maximising-opportunities-for-health-and-wellbeing-for-people-and-communities-experiencing-socio-economic-disadvantage-a-guide-to-using-the-socio-economic-duty-in-policy-and-practice-in-wales/?lang=cy



GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales
Polisi

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Aneurin Bevan University Health Board

BUILDING A FAIRER GWENT
TEG I BAWB

# Gyda'n gilydd mewn gobaith: Tegwch iechyd a'r penderfynyddion cymdeithasol yng Ngwent

**'Mae bod yn wirioneddol radical yn golygu gwneud gobaith yn bosibl yn hytrach nag anobaith yn argyhoeddiadol.'**

**- Raymond Williams**


# Beth yw 'rhanbarth Marmot' a pham mae Gwent wedi dod yn un?

- Mawrth 2022: Cytunodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) Gwent yn ffurfiol i weithio gyda'r Sefydliad Tegwch Iechyd (IHE) i ddod yn rhanbarth Marmot cyntaf Cymru – mae hyn yn arwydd o fwriad strategol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ledled Gwent
- Defnyddio 'lens penderfynyddion cymdeithasol' ac 8 Egwyddor Marmot i helpu i benderfynu ar gamau gweithredu i wella iechyd a llesiant yng Ngwent
- Uchelgais adroddiad Creu Gwent Iachach, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, a gyhoeddwyd yn 2019 oedd: 'Yn 2030, mae'r lleoedd lle rydyn ni'n byw, yn gweithio, yn dysgu ac yn chwarae yn ei gwneud hi'n haws i bobl yn ein cymunedau fyw bywydau iach, bodlon.'




'Mae anghydraddoldebau o fewn cymdeithas yn deillio o wahaniaethau anghyfiawn ac annheg yn yr amodau y mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw, yn gweithio, ac yn heneiddio ynddynt.'
- *Marmot Review 10-years on*

# Dosbarthiad ac effaith anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol:





Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yn yr 20% uchaf (pumed cwintel) ar gyfer amddifadedd incwm yng Nghymru (LC, 2019)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

BUILDING A FAIRER GWENT TEG I BAWB

# Dosbarthiad ac effaith anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol: Plant sy'n byw mewn tlodi




GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board


BUILDING A FAIRER GWENT TEG I BAWB

# Dosbarthiad ac effaith anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol: Disgwyliad oes ac oes iach 2018-20

## Disgwyliad oes




## % o fywyd a dreulir mewn iechyd 'da'




Mae Disgwyliad Oes a Disgwyliad Oes Iach yn dilyn y 'graddiant cymdeithasol mewn iechyd'

# Pwy sydd wedi arwain y gwaith hwn hyd yn hyn?

- Institute of Health Equity
- ABUHB tîm iechyd y cyhoedd – tîm Teg i Bawb Gwent
- BAFG Grŵp Arwain:
  - Gyngor Sir Fynwy & Torfaen
  - Llywodraeth Cymru
  - Tîm BAFG
  - Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
  - Tai Calon housing
- BAFG Grŵp Cynllunio
- Gwent PSB's 8 aelod statudol (trwy Grŵp Arwain)

# 8 Egwyddor Marmot:

- Rhoi’r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn.
- Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i wneud y gorau o'u galluoedd a chael rheolaeth dros eu bywydau.
- Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb.
- Sicrhau safon byw iach i bawb.
- Creu a datblygu mannau a chymunedau iach a chynaliadwy.
- Cryfhau rôl ac effaith atal salwch.
- Mynd i'r afael â gwahaniaethu, hiliaeth a'u canlyniadau.
- Anelu at gynaliadwyedd amgylcheddol a chydraddoldeb iechyd gyda'n gilydd.

Mae IHE yn hyrwyddo 'cyffredinoliaeth gymesur'

BUILDING A FAIRER GWENT
TEG I BAWB

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Beth mae’r rhaglen Creu Gwent Iachach wedi'i wneud hyd yn hyn?

**Mawrth 2022**

Cytundeb ffurfiol:

Cytunodd BGC Gwent yn ffurfiol i weithio gyda IHE i ddod yn rhanbarth Marmot cyntaf Cymru

**Mehefin 2022**

Grŵp arwain:

Sefydlu grŵp arwain Creu Gwent Iachach. Mae'r aelodau'n cynnwys y Sefydliad Tegwch Iechyd (IHE), awdurdodau lleol a GAVO

**Medi 2022**

Tîm rhaglen:

Tîm rhaglen Creu Gwent Iachach yn dechrau yn eu swyddi

**Hydref 2022**

Lansio Arweinyddiaeth a thudalen we Creu Gwent Iachach:

Lansiwyd y rhaglen yn swyddogol ar 21 Hydref yn Sefydliad Lysaght, Casnewydd. Roedd Syr Michael Marmot yn bresennol a rhoddodd araith

**Tach/Rhag 2022**

Gweithdai i Randdeiliaid:

Gweithdai wedi’u cynnal ar draws ardaloedd yr Awdurdod Lleol i drafod Cynllun Llesiant drafft BGC Gwent a gwaith rhanbarth Marmot

**Rhagfyr 2022**

Adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd:

Cyhoeddodd Dr Sarah Aitken, Cyn-gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a chydweithwyr yr adroddiad 'Gwent Teg i Bawb'.

**Ionawr 2023**

Brandio Creu Gwent Iachach:

Y brandio ar gyfer Creu Gwent Iachach yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda'r gymuned a'i lansio

**Mawrth 2023**

Cynllun llesiant drafft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

ganol mis Mawrth, anfonwyd drafft terfynol y cynllun llesiant at bartneriaid i'w drafod a'i gymeradwyo.

**Ebrill 2023**

Cylchlythyr Creu Gwent Iachach:

Diwedd mis Ebrill, cyhoeddwyd cylchlythyr cyntaf Creu Gwent Iachach i bartneriaid a thanysgrifwyr yn manylu ar yr hyn sydd wedi’i wneud hyd yn hyn, gan gynnwys cyfweliad â Dr Tammy Boyce o IHE

**Ebr/Mai 2023**

Adroddiad y Sefydliad Tegwch Iechyd:

Gwaith ar y gweill i gefnogi IHE gydag adroddiad argymhellion ar gyfer Gwent. I'w gyhoeddi ym mis Mehefin.

**Mehefin 2023**

Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC):

Disgwylir i gynllun llesiant newydd BGC Gwent gael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi ar 22 Mehefin

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

BUILDING A FAIRER GWENT
TEG I BAWB

# *Cynllun Llesiant BGC Gwent, 2023-28:*

Amcanion:

**Rydym am greu Gwent fwy teg, cyfiawn a chynhwysol i bawb.**

Rydym eisiau Gwent sy'n barod ar gyfer yr hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i warchod, er budd ein llesiant nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Camau:

Cymryd camau i leihau'r argyfwng costau byw yn y tymor hwy.


Darparu a galluogi cyflenwad o gartrefi fforddiadwy, priodol o ansawdd da.

Cymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i newid yn yr hinsawdd, a diogelu ac adfer ein hamgylchedd naturiol.

**Cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, drwy fframwaith Egwyddorion Marmot.**

Galluogi a chefnogi pobl, cymdogaethau a chymunedau i fod yn wydn, yn gysylltiedig, i ffynnu ac i fod yn ddiogel.

# Yr argymhellion: arweinwyr atebol




Rhai camau gweithredu (cenedlaethol) ar lefel Llywodraeth Cymru hefyd

# 'Camau cyflym ymlaen' posib - yn gyraeddadwy erbyn Mawrth 2024

| Argymhelliad gan y Sefydliad Tegwch Iechyd (IHE) | Egwyddor Marmot |
|---|---|
| Grŵp Arwain Rhaglen Marmot BGC Gwent yn dod yn Fwrdd Gweithredu ac yn goruchwylio datblygiad cynllun gweithredu, yn seiliedig ar yr adroddiad hwn | Ddim yn berthnasol, argymhelliad systemau |
| Adolygu cynigion ar gyfer atgyfeirio a rhagnodi cymdeithasol i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd ac yn cael eu cynnig i ddinasyddion sy'n byw ar incwm is | Cryfhau rôl ac effaith atal afiechyd |
| Diffinio'r dechrau gorau a pharodrwydd ar gyfer yr ysgol yng Ngwent mewn partneriaeth â rhieni, staff y blynyddoedd cynnar ac iechyd | Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn |
| Asesu tlodi hylendid yng Ngwent, nodi dangosydd lleol | Sicrhau safon byw iach i bawb |
| Asesu'r defnydd o'r Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol a'i werth o fewn aelodau BGC | Sicrhau safon byw iach i bawb |

# Beth yw rhai o'r heriau sydd o'n blaenau?

- Amser – tîm y rhaglen wedi'i gontractio am flwyddyn yn unig
- Cynnal momentwm/hirhoedledd
- Sut i ddefnyddio argymhellion IHE ochr yn ochr â Nodau Llesiant Cenedlaethol Cymru (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
- Monitro a gwerthuso – dangos newid
- Nifer y partneriaid sy'n gysylltiedig/gweithio trwy systemau
- Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl Gwent

# Gwent Teg i Bawb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol

**Aliniad nodau** - 'Socio-economic Duty nod yw sicrhau canlyniadau gwell i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.... [a] leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.'

Mae Gwent Teg i Bawb yn ddull **'newydd ac arloesol'** o fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau dilynol yng Ngwent

**3 lens:** cymunedau lle, cymunedau buddiant a chroestoriadedd – mae Egwyddorion Marmot yn mynd i'r afael â'r rhain i gyd

**Gweithio trwy systemau –** mae Cynllun Llesiant newydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ac adroddiad IHE ar gyfer Gwent yn fecanweithiau ar gyfer newid systemau

# Diolch

https://www.gwentpsb.org/en/gwent-marmot-region/

caroline.mcdonnell@wales.nhs.uk

# Gweithredu'r Ddyletswydd yn ymarferol – Dull 5 cam – asesu

Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

8th June 2023

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# A allai Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) fod yn arf i gefnogi gweithrediad y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a dyletswyddau eraill a roddir ar Gyrff Cyhoeddus?

## Cyflwyno'r achos...

# Beth yw Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA)?

## Mae HIA yn arf i gefnogi dealltwriaeth a gweithrediad Iechyd ym Mhob Polisi (HiAP). Mae Polisïau Llywodraeth Cymru yn cael eu datblygu trwy lens HiAP.

"Mae **Asesu'r Effaith ar Iechyd** (HIA) yn gyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac offer y gellir eu defnyddio i fesur polisi, rhaglen neu brosiect o ran eu heffeithiau posibl ar iechyd poblogaeth, a dosbarthiad yr effeithiau hynny o fewn y boblogaeth"
**(WHO Ewrop 1999, The Gothenburg Consensus)**

"Mae **iechyd ym mhob polisi** yn ddull o ymdrin â pholisïau cyhoeddus sy'n rhoi ystyriaeth systematig i oblygiadau iechyd penderfyniadau, yn ceisio synergeddau, ac **yn osgoi effeithiau niweidiol ar iechyd**, er mwyn gwella iechyd y boblogaeth a **thegwch iechyd"**

(Yr 8fed Cynhadledd Fyd-eang ar Hybu Iechyd, Helsinki 2013)


‘Mae gwasanaeth arferol wedi ailddechrau [ers Covid-19].
A nawr rydyn ni wedi mynd yn ôl i **wneud pobl dlawd yn dlotach**.
Dyna'r ffordd rydyn ni'n rhedeg ein **heconomi**' meddai.
'Ond mae hynny’n gyfnewidiol.
Nid oes rhaid i ni ei dderbyn’.

(Syr Michael Marmot, Cynhadledd Mai 2023)

'……mae effaith **anghydraddoldeb** ar ddisgwyliad oes yn waeth na 6 pandemig Covid ac yn cyfrannu at farwolaethau diangen'.

(siaradwr yn y gynhadledd Mai 2023)

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales




**Enwaduron cyffredin = anghydraddoldebau a phobl**

# Ecwiti a Chydraddoldebau

- **SED** – anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â ffactorau economaidd-gymdeithasol
- **Ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** – cyfle cyfartal sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015** – Cymru iachach a Chymru fwy cyfartal
- **Deddf Iechyd y Cyhoedd 2017** – Rheoliadau HIA (i'w gweithredu) – mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## Mae’r holl ddyletswyddau hyn yn canolbwyntio ar -


'Cymru sy’n fwy cyfartal' sy’n nod cenedlaethol. Mae'n diffinio hyn fel ‘cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd)’.

(Rhaglen Lywodraethu, Llywodraeth Cymru: diweddariad, Rhagfyr 2021)

# Methodoleg HIA wedi'i llywio gan:

- Iechyd a llesiant
- Anghydraddoldeb/annhegwch
- Penderfynyddion iechyd ehangach/cymdeithasol

Prif benderfynyddion iechyd



# Ystyriaethau allweddol yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA)

- Y boblogaeth gyfan ond yn bwysig **nodi grwpiau penodol o'r boblogaeth** sy'n rhannu nodweddion ac amgylchiadau (croestoriadedd) a allai gael eu heffeithio gan y polisi, strategaeth, cynllun, prosiect neu benderfyniad sy'n cael ei wneud.
- **Penderfynyddion ehangach** – cymryd y grwpiau hynny a nodwyd ac ystyried y berthynas a'r canlyniadau iddynt drwy lens y penderfynyddion ehangach hynny.
- **Cyd-destun** – gosod yr ystyriaethau hynny yng nghyd-destun yr hyn sy'n cael ei gynllunio ac unrhyw effeithiau cronnol posibl.

# Mapio'r Fframwaith Asesu HIA i'r dyletswyddau cyfreithiol – Grwpiau poblogaeth

| Grwpiau poblogaeth a ystyriwyd mewn HIA | SED ac ystyriaethau Cydraddoldeb |
|---|---|
| Grwpiau cysylltiedig ag oedran | Oedran (nodwedd warchodedig) |
| Grwpiau cysylltiedig â rhyw a rhywedd | Rhyw (nodwedd warchodedig)<br>Ailbennu rhywedd (nodwedd warchodedig)<br>Beichiogrwydd a mamolaeth (nodwedd warchodedig) |
| Grwpiau sydd â risg uwch o wahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall | Rhyw (nodwedd warchodedig)<br>Cyfeiriadedd rhywiol (nodwedd warchodedig)<br>Anabledd (nodwedd warchodedig)<br>Crefydd, cred neu ddiffyg cred (nodwedd warchodedig) |

# Parhaodd grwpiau poblogaeth

| Grwpiau poblogaeth a ystyriwyd mewn HIA | SED ac ystyriaethau Cydraddoldeb |
|---|---|
| Grwpiau cysylltiedig ag incwm | Anweithgar yn economaidd<br>Di-waith<br>Pobl sy'n byw ar incwm isel<br>Pobl nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd salwch<br>Anfantais materol<br>Hawlwyr budd-daliadau<br>Cyflogaeth ansicr |
| Grwpiau a/neu leoliadau daearyddol | Anfantais ardal |
| Grwpiau eraill | Anabledd (nodwedd warchodedig)<br>Priodas neu bartneriaeth sifil (nodwedd warchodedig) |

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Mapio'r Fframwaith Asesu HIA i'r dyletswyddau cyfreithiol – penderfynyddion/amgylchiadau i'w hystyried

| Penderfynyddion ehangach iechyd | Nodau Llesiant | SED ac ystyriaethau Cydraddoldeb |
|---|---|---|
| Ymddygiadau sy'n effeithio ar iechyd | Cymru Iachach | Tlodi bwyd<br>Hapchwarae<br>Ysmygu |
| Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol | Cymunedau Cydlynol,<br>Cymru Iachach<br>Diwylliant ac Iaith Gymraeg ffyniannus<br>Cymru Gyfartal | Llesiant y gymdogaeth<br>Cydlyniant cymunedol<br>Gwahaniaethu<br>Cymorth cymdeithasol |
| Iechyd a llesiant meddyliol | Cymunedau Cydlynus, Cymru Iachach | Cyfranogiad cymdeithasol a Chynhwysiant<br>Ymdeimlad o reolaeth |

# Penderfynyddion/amgylchiadau i'w hystyried

| Penderfynyddion ehangach iechyd | Nodau Llesiant | SED ac ystyriaethau Cydraddoldeb |
|---|---|---|
| Amodau byw ac amgylcheddol | Cymru gydnerth, Cymru Iachach,<br>Cymru gyfartal,<br>Cymunedau Cydlynol | Tai<br>Diogelwch cymunedol<br>Mynediad i fannau gwyrdd |
| Amodau economaidd | Cymru Lewyrchus<br>Cymru Gyfartal | Cyflogaeth<br>Incwm<br>Dyled<br>Asedau materol |
| Mynediad i wasanaethau | Cymru Iachach, Cymunedau Cydlynol,<br>Cymru gydnerth,<br>Cymru gyfartal<br>Cymru Lewyrchus<br>Diwylliant ac Iaith Gymraeg ffyniannus | Mynediad i'r rhyngrwyd<br>Cludiant<br>Gwasanaethau hygyrch |

# Casgliadau ar y dull

- Yn caniatáu i olwg gyfannol gael ei gymryd i ddechrau gan gwmpasu'r holl ystyriaethau perthnasol ar gyfer y dyletswyddau ac yna'n gallu arwain at asesiad manylach ar gyfer ffactorau penodol neu grwpiau poblogaeth lle mae pryderon wedi'u nodi ac yn cefnogi'r broses ymgysylltu.
- Mae cymhwyso'r dull hwn wedi arwain at ddatblygu templedi asesu cyfun wedi'u hategu gan fethodoleg HIA h.y. offeryn Asesu Cyngor Sir Ddinbych
- Dangoswyd ei fod yn ddefnyddiol - Enghreifftiau lle defnyddiwyd sgrinio HIA yn gyntaf i asesu effeithiau. Defnyddiwyd y canlyniadau naill ai i lywio elfennau o asesiadau eraill neu i gyfarwyddo penderfynwyr i gynnal asesiadau penodol pellach – er enghraifft Gwasanaethau Sgrinio yn cyflwyno'r Prawf FIT newydd ar gyfer Sgrinio Canser y Coluddyn

# Diolch….

Cyswllt:

lee.parrywilliams@wales,nhs.uk

Gellir dod o hyd i adnoddau, offer a chanllawiau:

https://phwwhocc.co.uk/WHIASU

Ystyried ymuno â Rhwydwaith Ymarfer HIA

Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU)

Cysylltwch â – Michael.fletcher@wales.nhs.uk i gael eich ychwanegu at ein rhestr ddosbarthu

# Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar waith

Helen Flynn

8 Mehefin 2023

justfair

# Yr Ymgyrch 1ForEquality

Ymgyrch i:

1. eirioli fod Llywodraeth y DU yn deddfu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol sydd wedi'i chynnwys yn Adran 1 o'r Ddeddf Cydraddoldeb

2. annog awdurdodau lleol yn Lloegr i roi'r ddyletswydd ar waith ar lefel leol

Gwaith yn cynnwys darparu hyfforddiant, cyflwyniadau ac offer ymarferol i annog a chynorthwyo gweithredu

https://www.gmpovertyaction.org/

http://justfair.org.uk/

http://thrive-teesside.org.uk/

https://www.amnesty.org.uk/

https://www.equallyours.org.uk/

https://www.equalitytrust.org.uk/

# Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar waith

**Prif awduron:**

Megan Isaac (Just Fair) and Anna Lopez (Greater Manchester Poverty Action)

**Gwasanaeth Tân ac Achub Glannau Mersi (MFRS)**

- Defnyddiodd y gwasanaeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i adolygu arferion recriwtio a nodwyd bod unigolion a oedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael eu tangynrychioli mewn ceisiadau am swyddi diffoddwyr tân
- Sylweddolwyd bod y gofyniad am drwydded yrru ar gyfer rolau diffoddwyr tân yn rhwystr sylweddol i ymgeisio.
- Dilëwyd y gofyniad am drwydded yrru ar gyfer darpar ddiffoddwyr tân
- Mae'r gwasanaeth bellach yn cynnig bwrsariaethau ar gyfer trwydded yrru i ymgeiswyr llwyddiannus o 20 ardal ddifreintiedig ar Lannau Mersi gyda gwersi gyrru yn cael eu cynnig yn ysgol hyfforddi MFRS, ac MFRS yn talu cost profion gyrru a ffioedd trwydded.

Cafwyd 195 o geisiadau ychwanegol ar gyfer swyddi diffoddwyr tân yn 2022, gyda 48% ohonynt o'r 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nglannau Mersi.

# Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar waith

## Cyngor Hackney

- Ym mis Gorffennaf 2020, ar ôl y don gyntaf o Covid-19, defnyddiodd Cyngor Hackney yr ystafell anadlu gyfyngedig i gynnal adolygiad o'u hymateb i'r pandemig.
- Arweiniodd yr adolygiad cydraddoldeb, gydag anfantais economaidd-gymdeithasol a'i effeithiau croestoriadol yn ganolog, at ffurfio'r Rhwydwaith Partneriaethau Cymunedol (CPN) – partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, y Grŵp Comisiynu Clinigol (CCG), y sector cymunedol a busnesau lleol wnaeth ddarparu cefnogaeth ddiwylliannol gynhwysol i drigolion agored i niwed, unigolion a warchodir ac unigolion ynysig yn ystod y pandemig.
- Mae gwneud penderfyniadau mewn argyfyngau fel Covid-19 yn anodd iawn oherwydd cyfyngiadau amser ac adnoddau ynghyd ag ansicrwydd sylweddol.
- Ond trwy wreiddio'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol mewn agwedd gyfannol at gydraddoldeb ers dros ddegawd, cydnabu Cyngor Hackney ar unwaith effeithiau anghyfartal Covid-19 ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol a chymunedau ymylol eraill ac roedd ganddo ymateb cynlluniedig a rhagweithiol i gydraddoldeb a chydlyniant o ddechrau'r argyfwng.

Atgyfeiriwyd 474 o aelwydydd yn uniongyrchol at y CPN am gymorth wedi'i ariannu gyda bwyd a hanfodion

# Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar waith

## Cyngor Harborough

- Roedd y cyngor yn ymwybodol o effaith negyddol bosibl ar iechyd meddwl y gallai dyled ei chael – yn enwedig yn ystod argyfwng costau byw
- Roedd yr effaith yn waeth i rai sy'n profi anfanteision lluosog a'r rhai nad oeddent wedi profi dyled yn flaenorol neu wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau cymorth.
- Ceisiodd y cyngor achub y blaen trwy ddatblygu cyfres o adnoddau i gefnogi pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, a hynny'n aml am y tro cyntaf.
- Mewn cydweithrediad â Home-Start De Swydd Gaerlŷr a Chyngor ar Bopeth, creodd Cyngor Harborough 'Pecyn Cymorth Cyntaf Ariannol' i gynnig cyngor a chymorth i bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol neu galedi ariannol, gyda ffocws penodol ar leihau canlyniadau iechyd negyddol yn gysylltiedig â'r argyfwng.

# Cysylltwch â ni

- Ymunwch â'n rhestr bostio i glywed am lansio cyhoeddiad a gweithgareddau eraill
- Edrychwch ar dudalen ymgyrch ac adnoddau 1ForEquality
- Dilynwch ni ar Twitter @JustFairUK
- Cysylltwch â mi helen.flynn@justfair.org.uk

justfair